



EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD, SIR GAERFYRDDIN 2023

Cystadleuaeth 129 – Grŵp Llefaru Bl.9 ac iau (Ad)
6-16 mewn nifer

Gwyrdd – Bryan Martin Davies

O'r dyffryn,
dirwynai'r ffordd fel rhaff wen
dros y Mynydd Du,
o dro'r Derlwyn i dro'r Gwch,
gan glymu gwlad y glo
a'r erwau gwyrdd ynghyd.

Wedi'r dringo,
gorffwysem wrth y chwarel galch
gan adael i'r gwyrddni ffein gysuro'n llygaid.
Edrychem yn freuddwydiol
ar garthenni gwyrdd y caeau
dan obennydd o gwmwl,
ac ar ffenestri cysglyd y tyddynnod gwyn
yn wincio yn yr haul.

Gwynfe, Llanddeusant, blaenau Tywi,
lle disgleiriai'r goleuni gwyrdd
yn y perthi a'r caeau a'r coed,
y goleuni Cymreig,
y cryndod creadigol
a wreichionodd yn efail Talyllychau,
yn Llanfair-ar-y-bryn,
ac yn y gannwyll bur
yn Llanymddyfri.

Heddiw,
mae'r un goleuni gwyrdd yn dal i losgi,
ei fflamau'n lledu o Langadog ein gobaith
i ddifa dichell a brad
fel eithin crin
o galonnau dynion.